**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD LLUN, 18 HYDREF 2021 DYDD LLUN, 18 HYDREF 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
T. Smith
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:- | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorydd G. Thomas<br>Cynghorydd K. Rowson | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod o’r Is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a’r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>ADRODDIADAU GWEITHGAREDDAU AR GYFER 2020/21 A 2021/22 (CH1 A CH2)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Safonau Masnach a Thrwyddedu fod yr adroddiad yn diweddaru cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu Cyffredinol ar waith y Tîm Trwyddedu o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 ac 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021. Siaradodd y Rheolwr Tîm am yr adroddiad ac amlinellu’r pwyntiau allweddol a fanylir ynddo yn ymwneud ag effaith Covid-19, staffio a dyletswyddau, arferion gweithio ynghyd â’r adroddiad gweithredol, alcohol ac adloniant, gamblo, hap-chwarae a loterïau, gweithgareddau arolygu a gorfodaeth ac adroddiad rheoli.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau ymhellach at y manylion a amlinellir yn atodiad yr adroddiad.<br><br>Cododd Aelod bryderon am yfed dan oed a dywedwyd fod yr awdurdod lleol yn casglu tystiolaeth yn unol â pholisi RIPA y Cyngor. Rhoddodd y Rheolwr Tîm ymhellach esboniad o’r broses a gynhelid os honnwyd fod gwerthu alcohol i bobl dan oed ac esboniodd y byddai’r deilliannau a’r camau gweithredu yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau, yn cynnwys pwy oedd wedi gwerthu i unigolyn dan oed.<br><br>Yng nghyswllt cwestiwn am natur y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a wnaed, dywedwyd fod y ceisiadau a wnaed yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnwys gwybodaeth ar nifer y tafarndai, clybiau sydd wedi cau neu ildio/dod i ben oherwydd Covid-19. Dywedodd y Swyddog y gwneir gwiriadau bob amser gyda'r tîm Rhyddid Gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas datgelu gwybodaeth.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y newidiadau a wnaed i nifer o safleoedd trwyddedig yn ystod y pandemig er mwyn cynnig gofodau awyr agored. Gofynnodd yr Aelod os oes gan yr Awdurdod ddigon o gapasiti i reoli'r gofodau awyr agored hyn a dywedodd ei bod yn hollbwysig y caiff y busnesau hyn eu hyrwyddo a'i bod hefyd yn bwysig eu bod yn cael eu rheoli'n gywir gan fod rhai tafarndai mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Teimlai'r Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu fod y capasiti yn ddigonol ar hyn o bryd a nododd mai am nifer cymharol fach o safleoedd y bu cwynion yn gysylltiedig â defnydd ardaloedd awyr agored hyd yma. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus yn unol â chyfyngiadau Covid-19. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm fod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Heddlu Gwent i weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a rhoi gwybodaeth yn ôl i'r Tîm Trwyddedu/Safonau Masnach i ymchwilio/monitro ymhellach drwy ymweliadau gorfodaeth.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 2). | |